# Llechi a sgiliau


**David Gwyn** yn cyflwyno Safle Treftadaeth y Byd newydd – Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru.



Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn (© Jon Knowles).







**Chwith:** Llwybr rhaff 'Blondin', Chwarel Pen yr Orsedd (© Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd/Dave Hopewell);
**Ar y dde:** Chwarel Dinorwig, inclên (© Hawlfraint y Goron).
**Pellaf ar y dde:** Bethesda a Chwarel y Phenrhyn (© Hawlfraint y Goron).



Honnodd William Morris fod llechi toi o chwareli a chloddfeydd yng ngogledd orllewin Cymru yn 'arddangosfa o wir ddyfnder tlodi'; canlyniad digalon, yn ei farn ef, o angen yr oes i safoni a dod o hyd i gynnyrch cost-effeithiol. Byddai Morris hefyd wedi anghymeradwyo'r ffyrdd yr oedd y diwydiant hwn wedi difetha tirwedd naturiol syfrdanol yr ardal. Ni fyddai wedi hoffi'r trefi a'r pentrefi a ddaeth i fodolaeth o ganlyniad – Bethesda, Llanberis, Nantlle a Blaenau Ffestiniog, gyda'u tai llwyd a'u capeli fel blychau – ac roedd yn casáu'r mewnlifiad i'r dyffrynnoedd gwledig llawn chwedlau a hanes gan gwmnïau rheilffordd, a oedd yn awchu am gipio'r farchnad lechi. Byddai Morris wedi cael ei syfrdanu'n llwyr i ddeall y byddai'r mannau hyn yn cael y gydnabyddiaeth treftadaeth uchaf posibl un diwrnod: Statws Treftadaeth y Byd UNESCO.

Roedd llechi'n cael eu gosod yn lle toeau gwellt a theils chlai gwledig ar derasau, melinau, ffatrïoedd a gweithdai, mannau addoli, filas maestrefol, palasau ac adeiladau cyhoeddus ledled byd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd llechi ysgafn yn golygu bod toeau goleddf isel Sioraidd yn bosibl. Roedd llechi hefyd yn galluogi plant i ddysgu eu llythrennau, gan adlewyrchu'r angen am weithwyr llythrennog yn Oes Fictoria. Ar ffurf slabiau, roedd llechi'n cyflawni amrywiaeth o ddibenion pensaernïol.

Roedd llechi'n hanfodol i adeiladwyr a phenseiri o Oes Fictoria, yn union fel yr oedd technolegau dŵr, stêm a thrydan y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi galluogi'r diwydiant hwn i gael ei gyfalafu; a'r camlesi, y rheilffyrdd a'r fflydoedd llongau a oedd yn golygu y gallai wasanaethu marchnadoedd allforio. Eto i gyd, ni chafodd y gwaith o gynhyrchu llechi ei fecaneiddio'n llwyr erioed, gan barhau i fod yn fath o waith crefft y gallai Morris fod wedi'i edmygu. Mae cloddio a phrosesu blociau llechi yn gofyn am ddeallusrwydd a sgiliau, yn ogystal â chryfder a dycnwch. Roedd y brif dasg o ddatgysylltu bloc oddi wrth wyneb y graig gyda'r swm lleiaf o ffrwydron yn cymryd amser i'w dysgu. Roedd taro bloc gyda'r morthwyl pren trwm i'w dorri'n ddarnau llai hefyd yn galw am benderfyniad a chrebwyll, gan fod ergyd wedi'i chamgyfeirio yn gamgymeriad costus. Cafodd y broses benodol hon ei mecaneiddio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond ni fu hynny'n wir erioed am y broses o hollti'r llechi hyn ag offer llaw. Roedd llwytho llechi a slabiau yn iard bentyrru'r rheilffordd yn galw am gryn allu i feddwl yn rhesymegol ac i ragweld. Ffurfiodd y dynion a oedd yn rhan o'r gweithlu hwn, a'u teuluoedd, gymunedau garw ond diwylliedig a llythrennog, cwbl Gymraeg eu hiaith, gan fyw mewn cydweithrediad anesmwyth, ac weithiau mewn gwrthdaro â chyflogwyr a pherchnogion.

Mae'r chwareli mwyaf yn drawiadol o ran eu golwg. Cafodd Dinorwig ei chloddio o lethrau mynydd mewn cyfres o bonciau 1,500 troedfedd o uchder, ac mae tomenni o gerrig gwastraff yn cael eu hadlewyrchu yn nyfroedd glas tywyll Llyn Peris islaw. Mae bythynnod a thyddynnod gwasgarog gerllaw yn dangos sut yr arhosodd y gweithwyr diwydiannol yn agos at y tir, er ei fod yn greigiog ac yn anffrwythlon. Lle bynnag y mae llechi wedi cael eu cloddio dan ddaear, yn hytrach nac mewn chwareli ar wyneb y tir, mae siafftiau, twneli a siambrau yn lleoliadau ysblennydd, aruchel hyd yn oed. Mae rhai wedi cael eu hagor fel atyniadau i ymwelwyr, fel Llechwedd ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd yr achos dros enwebu'r chwareli hyn, eu haneddiadau a'u systemau trafnidiaeth hanesyddol fel Safle Treftadaeth y Byd posibl i UNESCO – Sefydliad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig – yn un cryf. Ymrwymodd yr awdurdod lleol, Cyngor Gwynedd, i gais yn 2015, gan arwain at arysgrifiad chwe blynedd yn ddiweddarach. Rhaid i safle ddangos arwyddocâd mor eithriadol fel ei fod yn mynd y tu hwnt i ffiniau cenedlaethol, a bod o bwysigrwydd cyffredin i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Roedd lleoliadau diwydiannol wedi ymddangos ar restr Treftadaeth y Byd ers 1978, ond Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yw'r cyntaf i gynrychioli chwarelydda. Cafodd chwe ardal eu cynnwys:

- Chwarel y Penrhyn a Bethesda, a Dyffryn Ogwen at Aber Cegin (Porth Penrhyn)
- Tirwedd Fynyddig Chwarel Dinorwig
- Tirwedd Chwareli Dyffryn Nantlle
- Chwareli Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor, y Rheilffyrdd a'r Felin
- Ffestiniog: ei Mwyngloddiau a'i Chwareli Llechi, 'dinas llechi' a'r Rheilffordd i Borthmadog
- Chwarel Bryneglwys, Pentref Abergynolwyn a Rheilffordd Talyllyn.

Yn dilyn yr arysgrifiad, mae gwaith bellach yn mynd rhagddo ar raglen uchelgeisiol o gynhwysiant cymdeithasol ym mhob un o'r chwe ardal, ynghyd ag ail-ddychmygu'r Amgueddfa Lechi Genedlaethol yn Llanberis, a strategaeth ddehongli i adrodd stori'r dirwedd bwerus ac emosiynol hon. Lle'r oedd Morris yn gweld unffurfiaeth lwyd yn unig, mae'r Safle Treftadaeth y Byd, sydd newydd dderbyn arysgrifiad, yn adrodd stori fywiog a lliwgar y cenedlaethau a fu'n cloddio ac yn hollti llechi'n fedrus ac yn eu hallforio i farchnadoedd pell, gan gryfhau yn hytrach na lleihau eu hiaith hynafol – diwylliant dosbarth gweithiol hanfodol a oedd yn ateb heriau oes Fictoria, ac yn gwneud hynny ar ei delerau ei hun.

Mae David Gwyn yn archeolegydd ac yn awdur *Welsh Slate: Archaeology and History of an Industry* (2015).
rcahmw.gov.uk